Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

Ymateb i'r Pwyllgor ar ymchwiliad i systemau a ffiniau etholiadol fel rhan o Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

18 Chwefror 2020

1. Mae'r ymateb hwn yn darparu gwybodaeth i lywio ymchwiliad y Pwyllgor i systemau a ffiniau etholiadol.

2. Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel rhan o'n rôl statudol i barhau i adolygu cyfraith etholiadol a gwneud argymhellion os credwn fod angen eu cyflwyno. Mae'n pwysleisio ein barn am faint y Cynulliad a sut y caiff Aelodau eu hethol, fel y nodwyd yn ein hymateb i ddogfen ymgynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Creu Senedd i Gymru' ym mis Ebrill 2018. Mae hefyd yn mynd i'r afael â phwyntiau penodol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, lle y maent yn briodol i'n cylch gwaith.

Sut y caiff aelodau'r Cynulliad eu hethol

3. Mae penderfynu pa system bleidleisio i'w defnyddio ar gyfer etholiadau gwahanol yn fater cyfansoddiadol pwysig, a mater i Lywodraethau a Seneddau, nid y Comisiwn Etholiadol, ydyw. Ein rôl ni yw sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y system etholiadol a ddefnyddir fel eu bod yn gallu bwrw eu pleidlais yn y ffordd a fwriadwyd a bod gwaith cynllunio gweinyddol priodol yn cael ei wneud gan y Swyddog Canlyniadau perthnasol.

4. Gallai effaith system etholiadol newydd ar etholwyr yng Nghymru fod yn sylweddol a bydd yn bwysig er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o'r system newydd, yn enwedig mewn perthynas â deall sut i fwrw eu pleidlais. Dylai Comisiwn y Cynulliad hefyd ystyried yr effaith ar Swyddogion Canlyniadau a'u staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer unrhyw newid etholiadol a darparu adnoddau ar ei gyfer.

5. Pe bai'r system yn newid, byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol hefyd ystyried sut y mae'n cefnogi'r etholiad. Mae'n debygol y byddai gweithgarwch, lle y byddai angen cyllid ychwanegol ar ei gyfer, yn cynnwys:

- Trefnu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn etholiad y Cynulliad;
- Datblygu adnoddau addysg a phartneriaeth;
- Rhoi cyngor a hyfforddiant i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u hasiantiaid ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau;
- Rhoi cyngor ac arweiniad i Swyddogion Canlyniadau a'u staff.

6. Dylai pob deddfwriaeth fod yn ei lle o leiaf chwe mis cyn y dyddiad y daw'n ofynnol ei rhoi ar waith neu y daw'n ofynnol i ymgyrchwyr, Swyddogion Canlyniadau neu Swyddogion Cofrestru Etholiadol gydymffurfio â hi fel y gallant roi cynlluniau ar waith i gyflwyno unrhyw newidiadau i brosesau.

7. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i gydweithio â'r gymuned etholiadol yng Nghymru wrth roi unrhyw system etholiadol newydd ar waith. Mae dull cyson ar gyfer trefnu a rheoli etholiadau yng Nghymru wedi'i ddatblygu o fewn Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Y Bwrdd hwn ddylai fod yn gyfrifol am gynllunio a rheoli newid etholiadol mawr ledled Cymru yn effeithiol.

Pwyntiau penodol o gylch gorchwyl y Pwyllgor:

Deall trefniadau etholiadol cyfredol y Cynulliad:

8. Yn dilyn Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, awgrymodd ein hymchwil i farn y cyhoedd fod y rhan fwyaf o bleidleiswyr o'r farn bod yr etholiadau wedi cael eu cynnal yn dda (83% yn hyderus) a'u bod yn fodlon ar y broses o gofrestru i bleidleisio (91% yn fodlon) a'r broses bleidleisio (87% yn fodlon). O ran yr etholiad ei hun, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am yr etholiadau hyn, gydag 80% yn cytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais. Roedd hyn yn dangos cynnydd ers yr etholiad cyffredinol yng Nghymru yn 2011.

Pleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol

9. Yn ein harolwg o ymgeiswyr ar ôl yr etholiad, yn 2016 unwaith eto, roedd 77% o ymgeiswyr yn cytuno ei bod yn hawdd cael gwybod sut i ddod yn ymgeisydd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr (73%) yn deall y rheolau er mwyn dod yn ymgeisydd a sut i'w dilyn. Roedd llai na hanner yr ymgeiswyr yn cytuno bod y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir, a oedd yn llawer is nag etholiadau eraill.

Newid ffiniau

10. Er nad oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw farn am newid ffiniau, byddem yn argymell y dylid cytuno ar unrhyw newidiadau i'r system bresennol ymhell ymlaen llaw er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar yr etholiad.